# PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 9 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson a/ac Sattar |

## 21 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ebrahim.
Rhoddodd y Cynghorydd Parkhill wybod y byddai'n hwyr yn dod i'r cyfarfod gan ei fod yn teithio o gyfarfod yng Ngogledd Cymru.
Rhoddodd y Cynghorydd Gordon wybod y byddai angen iddi adael y cyfarfod am 6.15pm.

## 22 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiannau gan y Cynghorydd Gordon, a ddatganodd ddiddordeb personol yn Eitem 6 fel ymddiriedolwr Canolfan Datblygu Cymunedol De Riverside.

## 23 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 24 : CYD FENTER CHWARAEON: DIWEDDARIAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod y Cabinet – Diwylliant a Hamdden), Steve Morris (Rheolwr Parciau a Datblygu Chwaraeon) ac Emma Hill (Prifysgol Metropolitan Caerdydd) i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Cadeirydd wahodd Aelod y Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd mai dyma oedd enghraifft dda iawn o waith partneriaeth rhwng y Cyngor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Bu cynnydd yn nifer yr hyfforddwyr a hyfforddwyd trwy'r bartneriaeth na fyddai'r Cyngor wedi gallu ei wneud ar ei ben ei hun. Mae'r bartneriaeth wedi sicrhau cyfraddau presenoldeb a chyfranogiad da iawn. Roedd Aelod y Cabinet o'r farn ei bod yn bartneriaeth ragorol a oedd yn gweithio'n dda a bod y Cyngor wedi elwa'n fawr ohoni.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

- Gofynnodd aelodau a oedd beicio'n cael ei gynnwys yn y Gyd-Fenter Chwaraeon ac fe'u hysbyswyd bod partneriaeth ar waith â Beicio Cymru HSBC a Beicio Prydain, sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad strategol cyffredinol. Partneriaeth 8 blynedd yw hi gyda nawdd gorfforaethol sy'n gysylltiedig â Theithio Llesol  Nodwyd bod gwaith seilwaith yn cael ei wneud i hwyluso beicio ar ffyrdd.  Hysbyswyd aelodau hefyd bod y gyd-fenter ei hun yn cynnwys cynllun beicio o'r enw Wheel Women.

- Roedd yr aelodau o'r farn y dylid ystyried beicio yng nghyd-destun beicio pob dydd, nid o ran chwaraeon yn unig, a bod angen gwneud gwaith gydag ysgolion i ddarparu cyfarpar, yn benodol yn Arc Ddeheuol y ddinas.  Nododd Aelod y Cabinet fod Papur Cabinet ar fin cael ei gyhoeddi ynglŷn â Theithio Llesol a fydd yn ymdrin â hyn, bod cynlluniau beicio mewn ysgolion yn cael eu cynnal o hyd a bod ymgyrchoedd ar waith i wella seilwaith beicio.

- Roedd yr aelodau'n ystyried bod yr adroddiad yn stori newyddion da, bod nifer sylweddol o oriau gwirfoddoli'n cael eu cyfrannu a'i fod yn dda eu meintioli. Roedd yr aelodau'n awyddus i ddysgu sut roedd hyn yn cael ei gyflawni.

- Gofynnodd yr aelodau beth oedd y prif heriau a oedd yn wynebu'r gyd-fenter ac fe'u hysbyswyd bod dod o hyd i'r llwybr caffael priodol yn her barhaus, bod y gyd-fenter wedi sefydlu partner hwylus yn achos Prifysgol Metropolitan Caerdydd, gan osgoi yr hyn a allasai fod yn broses gaffael feichus a bod hon wedi galluogi datgloi swyddi gwag oedd wedi cael eu rhewi. Ychwanegodd Aelod y Cabinet y bu'n her wleidyddol, mai dyma oedd y tro cyntaf i ddefnyddio gwaith partneriaeth mewn gwasanaethau dewisol ac y bu'n rhaid profi nad oedd y Cyngor yn ymwrthod â'i gyfrifoldebau trwy wneud hynny.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw ffigurau cymharol ar gael o'r cyfnod cyn y bartneriaeth ac fe'u hysbyswyd bod pethau gwahanol yn cael eu cofnodi bellach; bod data ar gael am y 10 mlynedd diwethaf ond bod gwahanol strwythurau ar waith bellach a bod natur y rhaglen wedi newid, gan symud i ymagwedd gymdogaeth; bod gan rai rhaglenni ffocws penodol iawn, er enghraifft ar blant, neu'n weddol llafurddwys gyda llawer o adnoddau er mwyn creu mwy o effaith.

- Gofynnodd yr aelodau pa mor gynrychioladol yw'r gweithlu i gymunedau anodd eu cyrraedd. Hysbyswyd swyddogion bod amrywiaeth yn y chwaraeon a'r rhaglenni a ddatblygir gan staff Caerdydd, er enghraifft rhaglenni i fenywod a rhaglen anabledd.  Esboniodd y swyddogion hefyd eu bod yn recriwtio ac yn hyfforddi o'r cymunedau lleol er mwyn sicrhau'r gynrychiolaeth.  Ychwanegodd Aelod y Cabinet y bu'n anodd erioed i annog plant o'r cymunedau BME i gymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu, bod hyn yn ffocws o hyd, bod yr ymagwedd gymdogaeth yn effeithiol ond bod angen mwy o waith gyda Chwaraeon Cymru.  Cytunodd y swyddogion â hyn ond mynegon nhw eu rhwystredigaeth o ran y trefniadau ariannu blynyddol gyda Chwaraeon Cymru, a fu'n heriol wrth ddarparu rhai rhaglenni.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd rhaglenni'n cael eu darparu ar gyfer pob oedran ac atebwyd yn gadarnhaol, bod rhaglenni'n cael eu darparu ar gyfer y gymuned gyfan.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd perthnasoedd gwaith da o hyd ac ymatebolrwydd da gyda staff ers y gyd-fenter ac fe’u hysbyswyd bod hyn yn wir o hyd a bod gan swyddogion gyswllt dyddiol ac wythnosol â staff a perthnasoedd da.

PENDERFYNWYD y câi barn y pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai’r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

25 : GORSAF DRENAU DIWEDDARIAD

Cafodd yr eitem hon ei gohirio tan gyfarfod y Pwyllgor Craffu’r Economi a Diwylliant sydd wedi’i drefnu ar gyfer 7 Rhagfyr 2017, er mwyn derbyn eitem gyfrinachol frys.

26 : EITEM GYFRINACHOL FRYS

Hysbyswyd yr aelodau bod yr eitem hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol wedi’i heithrio yr oedd yn ofynnol i’r pwyllgor ei hystyried mewn sesiwn gaeedig, yn unol â pharagraff 14 o Ran 4, a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Cynigiodd y Cadeirydd y dylai’r pwyllgor benderfynu gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar hyn o bryd.
PENDERFYNWYD:

i. ystyried hyn fel eitem frys ac felly na fyddai’r eitem yn cael ei galw i mewn

ii. gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar hyn o bryd a symud y cyfarfod i sesiwn gaeedig.

27 : GWASANAETHAU CYFLOGAETH – CYN PENDERFYNU

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau a Louise Bassett, Arweinydd Tîm Cyflawni Partneriaeth i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd hi ei bod yn fodlon ar nifer yr ymatebion i’r arolwg. Diolchodd yr Aelod Cabinet i’r pwyllgor am eu sylwadau yn sgîl cyflwyno’r eitem yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

- Gofynnodd yr aelodau pa staff fyddai'n gymwys ar gyfer trosglwyddiad TUPE. Esboniodd y swyddogion y byddai pob swydd yn cael ei hystyried a byddai rhestr yn cal ei llunio o'r swyddi hynny a fyddai'n cael eu disodli. Yno roedd proses gyfreithiol gymhleth i fynd drwyddi a byddai tîm AD a Chyfreithiol y Cyngor yn edrych ar y rhestr a llunio barn
- Roedd yr aelodau yn fodlon ar y porth sengl ac yn ystyried mai hwn oedd orau i'r defnyddwyr gwasanaeth. Nododd yr aelodau'r cwestiwn ar yr arolwg a oedd yn gofyn a oedd pobl un teimlo bod ganddynt gyfle i fynegi eu barn yn eu cymuned leol a'r ganran isel sy'n nodi nad oeddent yn teimlo bod ganddynt gyfle i fynegi eu barn. Roedd aelodau'n ystyried bod hyn yn her i'r Cyngor, i wneud i'r ffigur newid. Cytunodd y swyddogion ond nodwyd mai hyn oedd rhan o Creu Cymunedau Cryf a oedd o dan gylch gorchwyl Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

- Cyfeiriodd yr aelodau at ddemograffeg yr ymatebwyr, gan nodi mai dim ond 15% o'r rhai a atebodd yn ddi-waith. Roedd yr aelodau'n credu bod angen cynnwys mwy o bobl sy'n wrthi'n chwilio am waith. Nododd y swyddogion eu bod wedi ceisio gwneud hynny, eu bod wedi gweithio gyda'r canolfannau gwaith etc. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd rhai pobl am ateb rhannau penodol o'r arolwg. Nodwyd hefyd nad oedd yr ymatebion yn cyfateb i ddemograffeg Caerdydd ac nad oedd barn y rhai sy'n ddi-waith yn wahanol i farn y mwyafrif.

PENDERFYNWYD y câi barn y pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai'r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

28 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd adroddiad diweddariad gohebiaeth i'r aelodau i geisio cytundeb o ran y cylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer Ymchwiliad 'Ariannu Parciau yng Nghaerdydd', a rhoddodd gopi o gynigion arbedion ymgynghoriad cyllidebol y Cyngor i'r aelodau.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad a chytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr Ymchwiliad 'Ariannu Parciau yng Nghaerdydd'.

29 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ddydd Iau 7 Rhagfyr 2017 am 4.30pm.